# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

**Cofnodion (SC(3)-09-10)**

**Dyddiad: 21 Ebrill 2010**
**Amser: 09.00 – 11.30**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Mike German, Dwyrain De Cymru
Irene James, Islwyn
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Rhodri Glyn Thomas, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Leanne Wood, Canol De Cymru
Brynle Williams, Gogledd Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Meriel Singleton, Clerc
Ryan Bishop, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Allan Rees MBE, Cadeirydd, Cymdeithas Genedlaethol Garddwyr Hamdden a Rhandiroedd
Adrian Walsh, Mentor y Fenter Adfywio Rhandiroedd dros Gymru
Hannah Pitt, Swyddog Polisi yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
John Mason, Cyd-sylfaenydd Trawsnewid Bro Ddyfi

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Karen Sinclair, Angela Burns a Joyce Watson.

### Eitem 2: Ymchwiliad i ddarpariaeth rhandiroedd yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth – Cymdeithas Genedlaethol Garddwyr Hamdden a Rhandiroedd a'r Fenter Adfywio Rhandiroedd

Croesawodd y Cadeirydd Allan Rees ac Adrian Walsh i'r cyfarfod a'u gwahodd i roi rhai sylwadau agoriadol. Bu'r Aelodau'n holi'r tystion.

Cytunodd Adrian Walsh ac Allan Rees i anfon ffigurau ychwanegol at y Pwyllgor yn nodi sut y mae'r ddemograffeg wedi newid o ran y galw am ddefnyddio rhandiroedd yng Nghymru.

Cytunodd Allan Rees i anfon gwybodaeth bellach at y Pwyllgor am yr achos prawf "Cobra", o ran ceisiadau cynllunio i ddefnyddio tir fel safle ar gyfer rhandiroedd.

Cytunodd Adrian Walsh ac Allan Rees i anfon nodyn i'r Pwyllgor ynghylch rhai o'r diffygion sy'n bodoli mewn deddfwriaeth sy'n ymdrin â rhandiroedd ac unrhyw newidiadau y maent am eu gweld yn digwydd.

Cytunodd Adrian Walsh ac Allan Rees i anfon gwybodaeth bellach at y Pwyllgor o ran a oes angen caniatâd cynllunio mewn perthynas â safleoedd ar gyfer rhandiroedd.

#### Eitem 3: Ymchwiliad i ddarpariaeth rhandiroedd yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth – yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Trawsnewid Bro Ddyfi

Croesawodd y Cadeirydd Hannah Pitt a John Mason i'r cyfarfod a'u gwahodd i gyflwyno rhai sylwadau agoriadol. Bu'r Pwyllgor yn holi'r tystion.

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog i benderfynu a ellir cynnwys darparu safleoedd ar gyfer rhandiroedd yn y cynllun Glastir.

### Eitem 4: Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 4:

4.1 Gwnaeth y Cadeirydd gynnig, o dan Reol Sefydlog 10.37(vi), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod er mwyn trafod materion yn ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor.

4.2 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

### Eitem 5: Trafod y papur cwmpasu ar gyfer yr ymchwiliad i danwydd biomas

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer ei ymchwiliad i danwydd biomas.

Ystyried i ba raddau y gall y cyflenwad o danwydd biomas yng Nghymru fodloni'r galw ychwanegol a ddaw o ganlyniad i gymhellion fel y cynllun Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy ar Raddfa Cymunedol a Thystysgrifau Ymrwymo i Ynni Adnewyddadwy

Ystyried sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi a chynnig cyfleoedd i annog cynnydd yn y tanwydd biomas a gaiff ei gynhyrchu yng Nghymru.

### Eitem 6: Trafod mynediad i ddwr mewndirol ac ymchwiliad i gynllunio

6.1 Bu’r Pwyllgor yn trafod ei ymchwiliad i fynediad i ddwr mewndirol a chytunodd ar gylch gorchwyl yr ymchwiliad i gynllunio.

Bydd yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar y meysydd pwnc a ganlyn:

Defnyddio polisïau a chanllawiau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol. Bydd hyn yn cynnwys Llywodraeth y DU a’r Comisiwn Cynllunio Seilwaith ee pa mor hawdd / anodd ydyw i drosi polisïau a chanllawiau lefel uchel yn bolisïau ar y lefel leol;

i ba raddau mae’r broses o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol yn ymateb i bolisïau a chanllawiau newydd;

pa gyfarwyddyd y mae polisi / canllawiau yn eu rhoi o ran cysoni ffyrdd o ddefnyddio tir sy’n gwrthdaro. Er enghraifft, ynni adnewyddadwy ac ansawdd y dirwedd, tai fforddiadwy a meini prawf cynllunio / ystyriaethau cymdeithasol, newid yn yr hinsawdd a thwf economaidd;

Defnyddio polisïau Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Chynlluniau Datblygu Lleol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ee a ddylid rhoi pwyslais gwahanol ar bolisïau sy’n gwrthdaro wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio;

pa bwyslais y dylid ei roi ar farn y cyhoedd os oes gwrthwynebiad i bolisïau cenedlaethol a lleol;

sut mae swyddogion cynllunio yn rhoi cyngor i bwyllgorau cynllunio.